**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KS/05148/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

24 Hydref 2014

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr am ddeiseb a anfonwyd at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ym mis Gorffennaf, sef P-04-562, Canolfan Treftadaeth Caernarfon. Mae'r drwg gennyf am yr oedi cyn ymateb.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyflwyno hanes a diwylliant Caernarfon, er enghraifft mewn perthynas â Chastell Caernarfon, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd, a Chaer Rufeinig Segontium. Mae Castell Caernarfon ei hunan yn denu dros 190,000 o ymwelwyr y flwyddyn i'r ardal, ac mae'r safle hefyd yn gartref i Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, sy'n denu dros 90,000. Er nad yw'n ganolfan sydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol, mae'r wybodaeth ddehongli sydd ar gael yn y Castell yn egluro sut mae tref Caernarfon wedi datblygu. Mae'r safleoedd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i gynnal gwaith maes pwysig a phrosiectau ar gyfer ennyn diddordeb y gymuned. Yn ogystal â hyn i gyd, bydd prosiect adnewyddu'r glannau yng Nghaernarfon, sef prosiect partneriaeth sy'n tynnu ynghyd nifer o asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn creu cyfleoedd i ddehongli treftadaeth bwysig Caernarfon mewn modd integredig, arloesol a chreadigol. Er enghraifft, mae cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer prosiect adnewyddu sy'n brosiect celfyddydau cymunedol sy'n manteisio ar hanes cyfoethog Caernarfon.

Er y byddwn yn gefnogol i'r syniad o greu canolfan treftadaeth newydd yng Nghaernarfon, rwy'n credu y byddai angen arwain menter o'r fath, a'i hariannu, yn lleol er mwyn iddi fod yn gynaliadwy. Byddwn yn hapus i fy swyddogion yn Cadw a CyMAL gynnig cyngor a chanllawiau pe bai'r Gymdeithas Ddinesig yn awyddus i fwrw ymlaen â'r syniad hwn.

Yn gywir

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*